Newyddion Ysgol Nefyn – Chwefror 2010

Diolch i Anti Susie am ddod atom i gynnal gwasaneth ysgol gyda`r plant. Hefyd diolch iddi am roi`r cyfle inni gynnal ein Gwasaneth Gŵyl Dewi Sant yn yr Eglwys a diolch i`r athrawon a`r plant am weithio mor galed i baratoi ar gyfer y prynhawn.

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd yn cymeryd rhan yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor ar Ddydd Sadwrn Mawrth 6ed. Roedd yn werth gwrando ar gyfraniadau tuag at gystadlaethau – llefaru unigol, unawd cerdd dant, parti unsain, parti llefaru a`r côr yn Eisteddfod y Cylch ym Motwnnog ar Ddydd Sadwrn Chwefror 27ain. Diolch i`r rhieni a ymunodd efo ni yno a rhoi eu hamser.

Yn ystod pythefnos Masnach Deg cafodd chwech o ddisgyblion Grŵp Masnach Deg yr ysgol dreulio bore diddorol dros ben ym Mhwllheli yn gwrando ar ffermwr o El Salvador yn disgrifio`i fywyd ef – yn tyfu a gwerthu cnau ar ei fferm oedd yn `Fferm Masnach Deg`.

Daeth Mark o `Dwyfor Te a Choffi` at ddisgyblion yr Adran Iau i sgwrsio am Fasnach Deg yn ystod y prynhawn.

Teithiodd Rebecca, Caryl, Mai a Gwenno i Ganolfan Tenis Arfon i gymeryd rhan yng Nghystadleuaeth Gymnasteg Eryri 2010. Mae`r bedair wedi bod yn mynychu sesiynau gymnasteg yn Ysgol Uwchradd Botwnnog yn wythnosol. Roedd cael gwrando ar John Dilwyn Jones o`r Archifdy yn trafod Nefyn yn y gorffennol yn wych i blant Blwyddyn 4.

Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 6 am drefnu diwrnod i godi arian i bobl Haiti`n dilyn y daeargryn yno. Casglwyd £400 gan blant Ysgol Nefyn drwy wisgo dillad eu hunain a cynnal gwahanol gemau`n y dosbarth a gwerthu cacennau. Bu Anti Carys ac Anti Ann yn brysur iawn yn coginio gyda`r plant.

Penderfynodd aelodau`r Cyngor Ysgol gasglu arian i deulu o Lithfaen gan fod eu cartref wedi ei ddifa gan dân yn ddiweddar. Cawsom ddiwrnod `gwisgo pyjamas` yn Ysgol Nefyn gyda pawb yn talu dirwy o £1. Casglwyd £155. Mae`r disgyblion wedi bod yn garedig iawn yn dod â gwahanol deganau ac eitemau bychan ar gyfer y cartref hefyd.